



Legal Aid
Agency

Working with others to achieve excellence in the delivery of legal aid

Cynllun Iaith Gymraeg

Adroddiad 2019-20 a 2020-21

Rhagfyr 2021



Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad 2019/20 a 2020/21

Cyflwyniad

1. Dyma adroddiad yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar weithrediad ei Chynllun Iaith Gymraeg yn seiliedig ar weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod rhwng blwyddyn ariannol 2019-20 a 2020-21.
2. T Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gynhyrchu'n unol â Chynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chynllun Iaith Gymraeg diweddaraf y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 9 Ebrill 2018.
3. Roedd y cyfnod adrodd ar gyfer chwarter olaf blwyddyn ariannol 2019-20 a blwyddyn ariannol 2020-21 yn gyfnod heriol iawn a oedd yn golygu bod angen delio'n gyflym â nifer o heriau amrywiol ac unigryw a gyflwynwyd gan bandemig y Coronafeirws. Yng ngoleuni'r pwysau annisgwyl ac ychwanegol a gyflwynwyd, fe wnaethom benderfynu cynhyrchu adroddiad cyfun ar Gynllun Iaith Gymraeg 2019-20 a 2020-21.
4. Drwy gydol y pandemig, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi monitro'r canllawiau a'r cyngor swyddogol a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae wedi sicrhau bod cyngor sy'n ymwneud â Chymru

wedi arwain ac wedi'i ymgorffori yn null yr Asiantaeth o ddiogelu darpariaethau gwasanaethau cymorth cyfreithiol, gan gynnwys cymorth iaith Gymraeg a darpariaeth y gwasanaeth, i gleientiaid yng Nghymru.

5. Mae darpariaeth Gymraeg y Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol yn cael ei harolygu gyda'r rhai sy'n darparu Cyngor Cymorth Cyfreithiol. Bydd Rheolwyr Contractau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol fel arfer yn sicrhau bod Darparwyr Cymorth Cyfreithiol yn gallu cynnig gwasanaeth Gymraeg neu fod ganddynt broses i gyfeirio ati. O ystyried effeithiau'r pandemig, a gyda'r bwriad o leihau effaith weinyddol yr asiantaeth ar ddarparwyr, mae dull gweithredu seiliedig ar risg ar gyfer gweithgarwch darparwyr wedi cael ei flaenoriaethu, sy'n golygu bod yr arolwg o ddarpariaeth Gymraeg bellach wedi'i gynllunio ar gyfer Gwanwyn 2022.

Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tendrau

6. Mae ein contractau gyda darparwyr yn cynnwys gofyniad ynghylch darparu gwasanaethau iaith Gymraeg i gleientiaid cymorth cyfreithiol yng

Nghymru fel mater o drefn. Mae Contract Troseddu Safonol Cymorth Cyfreithiol 2022, a fydd yn disodli'r contract troseddu safonol cyfredol o fis Hydref 2022 ymlaen, a Chontract Sifil Safonol Cymorth Cyfreithiol 2018 yn cynnal y gofyniad hwn yn unol ag ymrwymiad yr Asiantaeth i ddiogelu'r ddarpariaeth hon yn yr holl gontractau cymorth cyfreithiol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer darparu cyngor i'r cyhoedd.

Cyhoeddiadau

7. Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddedig a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ar gais.

Dangosyddion Perfformiad DP 1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Staff dwyieithog

8. Ar hyn o bryd mae gennym bedwar aelod o staff dwyieithog ac un dysgwr uwch yn gweithio ar ein gwasanaethau Cymraeg. Mae Rheolwr Gweithrediadau swyddfa Caerdydd hefyd yn ddysgwr uwch. Mae hynny'n cynrychioli tua 25% o'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yng Nghymru. Maen nhw'n gweithio ar ein gwasanaethau rheng flaen (ffôn, gohebiaeth, ceisiadau) ac yn helpu gyda gwaith prawf ddarllen a chyfieithu o bryd i'w gilydd. Hefyd, mae gennym ni ddau aelod o staff dwyieithog ychwanegol mewn gwahanol adrannau yn y swyddfa yng Nghaerdydd sy'n gallu cefnogi'r

gwasanaethau Cymraeg os oes angen.

9. Rydyn ni'n dal i gael adborth cadarnhaol gan ein darparwyr ynghylch ein gwasanaethau rheng flaen Cymraeg.

Ceisiadau cymorth cyfreithiol troseddol

10. Ers 2014 rydyn ni wedi prosesu pob cais am gymorth cyfreithiol troseddol, roedd y gwaith hwn yn arfer cael ei wneud gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi. Mae'r broses ymgeisio hon yn cynnwys ffurflen gais Gymraeg ar-lein i sicrhau bod ein cleientiaid yn gallu parhau i wneud cais am Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn Gymraeg a derbyn yr holl ohebiaeth gysylltiedig yn Gymraeg os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny. Yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020, cawsom dri chais yn Gymraeg ac yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2021, cawsom ddau gais.

Galwadau ffôn

11. Rydyn ni'n cadw cofnodion misol o'r galwadau ffôn rydyn ni'n eu derbyn ar y llinell ffôn Gymraeg. Mae ein dadansoddiad yn dangos, rhwng mis Ebrill 2019 a diwedd mis Mawrth 2020, ein bod wedi cael 155 o alwadau, gostyngiad o 6.1% ers y flwyddyn flaenorol, a rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Mawrth 2021, cawsom 88 o alwadau, gostyngiad pellach o 43.3%. Er mwyn cymharu, yn ystod yr un cyfnod, cawsom ostyngiad o 4.14% mewn galwadau

Saesneg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 a gostyngiad pellach o 28.3% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.

Cymorth cyfreithiol sifil

12. Yn ogystal â chofnodi manylion y galwadau ffôn, rydyn ni'n parhau i gofnodi ein rhyngweithiadau digidol yn y Gymraeg. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cawsom 108 o geisiadau drwy ein system CCMS (ein system ar gyfer rheoli cymorth cyfreithiol sifil) yn Gymraeg a 10 e-bost. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, cawsom 138 o geisiadau drwy ein system CCMS a 54 o negeseuon e-bost. Byddwn yn parhau i fonitro'r holl drafodion Cymraeg.

	2018-19	2019-20	2020-21
E-byst a dderbyniwyd	18	10	54
Ceisiadau am ohebiaeth Gymraeg (CCMS)	101	108	138

DP 2 Darparu Gwasanaethau drwy Drydydd Partïon

Gwasanaethau wyneb yn wyneb

13. Mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaeth rheng flaen yn cael ei ddarparu gan

ein darparwyr dan contract. Mae contractau cymorth cyfreithiol gyda darparwyr wyneb yn wyneb yn cynnwys gofynion penodol i sicrhau bod darparwyr yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yng Nghymru. Mae cwmnïau'n cydymffurfio drwy gyflogi siaradwyr Cymraeg, neu mae ganddynt weithdrefnau yn eu lle i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy gyfeirio at ddarparwr Cymraeg ei iaith o fewn yr un maes caffael lle mae'r ddarpariaeth ar gael.

14. Mae Rheolwyr Contractau yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg fel rhan o'u gweithgareddau arferol yng Nghymru, gan gynnwys yn ystod y rhaglen ymweliadau blynyddol i ddarparwyr.

15. Mae gwasanaethau Cymraeg, fel ein llinell ffôn a'n ffurflenni dwyieithog (lle bo hynny'n berthnasol) ar gael ar gais ac ar GOV.UK.

16. Canfu arolwg yn 2019 o'n darparwyr yng Nghymru fod dros 60% yn cyflogi un neu ragor o siaradwyr Cymraeg. Mae'r rheini nad ydyn nhw'n cyflogi siaradwr Cymraeg wedi'u lleoli yn ne ddwyrain Cymru, lle mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn isel. Mae darparwyr eraill yn yr ardal hon sy'n cyflogi siaradwr Cymraeg ac felly rydyn ni'n ystyried bod digon o ddarpariaeth amgen ar gael. Mae ein harolwg nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2022. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2019 cyn dechrau pandemig y Coronafeirws.

17. Rydyn ni wedi defnyddio Twitter i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i anfon negeseuon trydar yn Gymraeg.

Gwasanaethau ffôn

18. Rydyn ni'n parhau i ariannu'r Gwasanaeth Cyngor Cyfreithiol Sifil (CLA) sy'n wasanaeth llinell ffôn cyngori cenedlaethol sy'n darparu cyngor cyfreithiol arbenigol ar Ddyledion, Addysg, Tai, Teulu a Gwahaniaethu. Mae modd i gleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth brysbennu galwadau ffôn cychwynnol ddewis siarad yn Gymraeg.

19. Mae gwasanaeth ar-lein digidol '*Gwirio os y gallwch chi gael cymorth cyfreithiol*' yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar GOV.UK ar gael yn Gymraeg ac mae'n helpu cleientiaid i benderfynu a ydy eu problem yn disgyn o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol ac a ydyn nhw'n debyg o fod yn gymwys yn ariannol i gael cyllid cyhoeddus. Os yw'n briodol, cynigir eu ffonio nhw'n ôl, gan ddefnyddio cyfieithwyr Cymraeg o'r Cyngor Cyfreithiol Sifil er mwyn bwrw ymlaen â'u hachos. Rydyn ni'n parhau i ehangu'r ddarpariaeth o gymorth Cymraeg sydd ar gael yn ddigidol ac rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr â thîm Polisi Cymorth Cyfreithiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod cyfeiriadau o'r gwasanaeth ar-lein i sefydliadau'r trydydd sector hefyd ar gael yn Gymraeg.

20. Pan fydd cleientiaid yn cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu ac mae angen cyngor cyfreithiol arnyn nhw,

mae modd iddyn nhw wneud cais am gyfreithiwr sy'n siarad Cymraeg pan fydd swyddog y ddalfa yn cysylltu â Chanolfan Alwadau Cyfreithiwr ar Ddyletswydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae'r gwasanaeth hwn yn golygu bod modd anfon cyfreithiwr priodol i'r orsaf heddlu.

DP 3 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

21. Dyrennir amser ar gyfer hyfforddi a datblygu i'r holl staff. Mae'r Asiantaeth yn chwilio'n frwd am ffyrdd newydd arloesol o ddatblygu sgiliau ei dysgwyr Cymraeg uwch ac mae'n ceisio canfod cyfleoedd dysgu priodol bob blwyddyn. Rydyn ni hefyd yn parhau i drafod pob cyfle dysgu a datblygu gyda'n staff, gan gynnwys a ydyn nhw'n dymuno cael hyfforddiant ar y Gymraeg. Pan fydd unigolyn yn mynegi diddordeb mewn datblygu sgiliau Cymraeg, canfyddir hyfforddiant addas i ddiwallu'r angen hwnnw. Hyd at fis Chwefror 2021, cynhaliwyd gwersi Cymraeg sylfaenol bob pythefnos a oedd yn agored i'r holl staff. O fis Mawrth 2021 ymlaen, cafodd y gwersi bob pythefnos eu disodli gan grŵp trafod Cymraeg wythnosol ar gyfer y rheini sydd eisoes â rhywfaint o allu yn y Gymraeg ac sy'n dymuno ymarfer eu sgiliau.

DP 4 Technoleg Gwybodaeth

22. Mae ein system TG ar gyfer materion cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei defnyddio gan 1600 o ddarparwyr

cymorth cyfreithiol, gan gynnwys tua 250 o siambrau bargyfreithwyr. Mae gohebiaeth ac unrhyw ddatganiadau sy'n gofyn am lofnod cleient ar gael yn Gymraeg ar gais. Fodd bynnag, nid yw gallu cynnyrch digidol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i gefnogi cyfieithiadau Cymraeg bob amser yn syml gan nad yw rhai o systemau gwaith achos TG yn cynnwys cyfieithiadau Cymraeg. Er gwaethaf yr her hon, bydd llythyrau bob amser yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ar gais.

DP 5 Gweinyddu'r Cynllun

23. Roedd y cyfrifoldeb dros ein Cynllun Iaith Gymraeg yn aros gyda'r

Ganolfan Gorfforaethol yn ystod y cyfnod adrodd 2019-20 a 2020-21.

24. Ni dderbyniwyd unrhyw gŵyn am ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20 a 2020-21.

Casgliad

25. Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi parhau i gyflawni Cynllun Iaith Gymraeg effeithiol yn llwyddiannus yn ystod cyfnodau adrodd 2019/20 a 2020/21 ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon uchel.

Jane Harbottle
Prif Weithredwr, Asiantaeth Cymorth
Cyfreithiol



© Crown copyright 2021

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

